Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Safon Uwch Flex

## Manyleb y Rhaglen

Mae’r fersiwn hon o’r fanyleb yn ddilys nes hysbysir y sector AB fel arall.

Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 3
2. Diben y Rhaglen ..... 3
3. Trosolwg o Ddarparu ..... 3
4. Cymhwystra a Gofynion Mynediad ar gyfer Dysgwyr ..... 3
5. Cynnwys y Rhaglen ..... 3
6. Gofynion Cyflwyno Data ..... 4
   Cod Rhaglen ..... 4
   Gwybodaeth Cyllid ..... 4
7. Monitro ac Archwilio ..... 4
   Dull Monitro ..... 5
   Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen ..... 5
   Deilliannau Dysgu ..... 5
   Profion Archwilio ..... 5
8. Manylion Cyswllt ..... 5

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Fanyleb Rhaglen hon yn nodi'r gofynion ar gyfer darparu'r Rhaglen Safon Uwch Flex. Mae'n darparu trosolwg o ofynion y rhaglen, gan gynnwys cymhwystra ac amodau mynediad ar gyfer dysgwyr; ac yn manylu ar y gofynion cyflwyno data i alluogi Medr i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a'r deilliannau dysgu ar gyfer y Rhaglen Safon Uwch Flex.

Mae'r Fanyleb hon hefyd yn rhan o'r Cytundeb rhwng Sefydliadau a Gweinidogion Cymru ar gyfer darparu a chyllido'r Rhaglen Safon Uwch Flex. Rhaid i chi sicrhau bod eich darpariaeth o ran y Rhaglen Safon Uwch Flex yn ymlynu wrth y Fanyleb Rhaglen hon.

Mae un rhaglen astudio ar gael ar hyn o bryd.

## 2. Diben y Rhaglen

Rhaglen un flwyddyn yw'r Rhaglen Safon Uwch Flex, a ddyluniwyd ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno astudio Rhaglen Safon Uwch amser llawn ond nad ydynt eto wedi ennill y cymwysterau mynediad gofynnol.

Mae'r Rhaglen yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu a gwella eu proffil cymwysterau lefel 2 ac ennill cymhwyster lefel 3 sy'n gyfwerth â Safon UG.

## 3. Trosolwg o Ddarparu

Dylai'r Rhaglen Safon Uwch Flex gael ei darparu ar sail amser llawn am isafswm o 16 awr yr wythnos am o leiaf 35 wythnos.

## 4. Cymhwystra a Gofynion Mynediad ar gyfer Dysgwyr

I fod yn gymwys i gael mynediad i'r rhaglen rhaid i ddysgwr fod yn 16 oed neu drosodd ar 31 Awst, yn union cyn i'r rhaglen ddechrau.

Sylwer bod Medr hefyd yn disgwyl i flaenoriaeth gael ei rhoi, yn y lle cyntaf, i'r dysgwyr hynny sy'n 16 i 18 oed ar y 31 Awst, yn union cyn i'r rhaglen ddechrau[1].

## 5. Cynnwys y Rhaglen

Rhaid i'r Rhaglen ddefnyddio strwythur wythnosol sylfaenol fel a ganlyn:

- dwy wers Diwtorial wythnosol sy'n 2 awr o hyd:
  - un sesiwn gyfan o ddwy awr lle bydd trefn Sefydlu a Llyfryn Sgiliau yn cael eu defnyddio;
  - sesiwn galw heibio 1-i-1 bellach wedi ei threfnu sy'n un awr o hyd; ac

[1] Ystyrir bod dysgwr yn 18 oed tan ddiwedd y flwyddyn academaidd y mae eu pedwerydd pen-blwydd ar bymtheg yn digwydd ynddi. Mae'r diffiniad hwn yn sicrhau nad yw cyllid ar gyfer dysgwr 16 i 18 oed yn newid yn ystod rhaglen unigolyn os yw'r dysgwr yn troi'n 19 oed yn ystod blwyddyn academaidd.

  - awr derfynol i'r Tiwtor Personol drefnu cymorth 1-i-1 gyda dysgwyr penodol.
- dwy wers wythnosol sy'n 2 awr o hyd ar gyfer Ailsefyll TGAU:
  - Mathemateg / Mathemateg Rhifedd; neu
  - Saesneg / Cymraeg Iaith (Gyntaf)
- dwy wers wythnosol sy'n 2 awr o hyd ar gyfer Pwnc TGAU[2] (e.e. Llenyddiaeth Saesneg neu Astudiaethau Ffilm neu Hanes neu Gymdeithaseg a.y.b.)
- dwy wers wythnosol sy'n 2 awr o hyd ar gyfer Pwnc BTEC Lefel 3[3] (e.e. Cyfrifiadura neu'r Gyfraith neu Seicoleg a.y.b.)

Yn ychwanegol at y gwersi, bydd dysgwyr yn cael gwaith cartref a gwaith darllen ehangach ar gyfer pob dosbarth, sy'n gyfanswm o ddwy awr o leiaf o waith annibynnol y pwnc yr wythnos (neu chwe awr ar y cyfan y tu allan i amser dosbarth yr wythnos).

## 6. Gofynion Cyflwyno Data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) / y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a deilliannau dysgu'r rhaglen ar gyfer y Rhaglen Safon Uwch Flex.

Yn unol â'r amodau a nodir yn y *Llythyr Dyfarnu Grant* blynyddol, rhaid i sefydliadau sicrhau bod data'n cael ei gyflwyno yn y fformat cywir ac mewn modd amserol.

Mae Llawlyfr Cymorth i Ddefnyddwyr LLWR[4] a Nodiadau Cwblhau Technegol CYBLD[5] yn nodi'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth gyflwyno data ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

### *Cod y Rhaglen*

Dylid defnyddio'r cod rhaglen canlynol (LP74) ar gyfer dysgwyr ar y Rhaglen Safon Uwch Flex:

0000A02B Safon Uwch Flex

### *Gwybodaeth Cyllid*

Mae cyfanswm y cofrestriadau ar gyfer y Rhaglen hon wedi eu capio ar 20 ar gyfer pob Sefydliad Addysg Bellach o fewn un flwyddyn academaidd.

## 7. Monitro ac Archwilio

Bydd gan fonitro ac archwilio rôl o ran sicrhau bod y canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ac i helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

[2] Dylai'r pwnc fod yn gysylltiedig â'r pwnc/pynciau Safon Uwch y mae'r dysgwr yn dymuno ei/eu (h)astudio.
[3] Yr un fath ag uchod.
[4] Gweler Cofnod dysgu gydol oes Cymru (LLWR).
[5] Gweler Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD).

***Dull Monitro***

Bydd y dull o fonitro'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- cydymffurfio â manylebau'r rhaglen; a
- deilliannau dysgu ar gyfer y rhaglen.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfuniad o fonitro yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn; ymarfer paru data; a phrofion archwilio manwl ar ddysgwyr ar Raglenni Safon Uwch Flex.

***Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen***

Bydd Medr yn defnyddio data LLWR / CYBLD i fonitro'r modd y cydymffurfir â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys monitro'r data o setiau data'r rhaglen a gweithgareddau i wirio bod gofynion darparu'r rhaglen yn cael eu hateb yn llawn.

***Deilliannau Dysgu***

Mae cyrchfannau dysgwyr yn fesur perfformiad allweddol ar gyfer y rhaglen ac yn hollbwysig i werthuso'r modd y darperir y rhaglen.

Disgwylir y bydd y mwyafrif llethol o ddysgwyr sy'n cwblhau'r Rhaglen Safon Uwch Flex yn llwyddiannus yn camu ymlaen i Raglenni Safon Uwch amser llawn.

***Profion Archwilio***

Yn ychwanegol at y dull o fonitro a nodir uchod, bydd yr holl ddata a ddychwelir gan y sefydliadau Addysg Bellach yn ddarostyngedig i ofynion archwilio diwedd blwyddyn presennol[6]. O fewn hyn, bydd pwyslais arbennig yn cael ei roi yn y *Canllawiau Archwilwyr* i sicrhau bod archwilwyr allanol yn samplu dysgwyr sy'n gwneud y Rhaglen Safon Uwch Flex yn briodol.

## 8. Manylion Cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â Medr yn y blwch negeseuon e-bost canlynol: Buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

[6] Bydd y gofynion archwilio ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government